COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL A CHYFFREDINOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mai 13eg, 2015 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Catherine Ll. Morris (Cadeirydd), Robert M. Jones (Is-gadeirydd), Wyn Griffiths, John E. Griffiths, Alun Jones, John Gwilym Jones, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, R. Phillip Roberts, William B. Williams, Cyng. R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Thelma Cordingley, June Jones, Cyng. John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

ABSENNOL

Gwilym Hughes

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Mr. Colin Jones, Rheolwr Parcio a Diogelwch Ffyrdd. Fe'i gwahoddodd i siarad cyn i'r Cyngor gynnal ei Gyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Misol arferol.

SGWRS GAN COLIN JONES, RHEOLWR PARCIO A DIOGELWCH FFYRDD

Rhoddodd gefndir yr adolygiad parcio i ailstrwythuro asedau parcio, ffïoedd ac ati. Derbyniwyd nifer o argymhellion i drafod yr adolygiad megis codi tâl yn meysydd parcio'r Sir – Porth Neigwl yn y gymuned hon – yn unol â phenderfyniad Cabinet y Cyngor ac na ddigwydd unrhyw beth am gryn amser eto – efallai blwyddyn neu ddwy hyd yn oed.

Derbyniwyd sylwadau'r Cyngor hwn i'r ymgynghoriad cychwynnol, sef nad yw'n gwneud synnwyr codi am barcio ym Mhorth Neigwl a fyddai'n dwysáu'r broblem honno, gan mai ond lle i ddeuddeg car sydd yno a phe gwneid hynny, parcio ar y ffordd ddigwyddai wedyn; ategwyd hynny'n bendant iawn. Erbyn hyn, sylweddolwyd nad Cyngor Gwynedd yw perchennog y tir – nodwyd hynny yn yr ymateb gwreiddiol hefyd – felly, bydd rhaid i'r Adran gael trafodaeth â'r perchennog.

Diweddodd drwy ddweud, er gwybodaeth, yr argymhellir codi ffi am barcio ar strydoedd megis Y Cob ym Mhwllheli yn yr adroddiad adolygiad parcio. Ystyrir ger Y Fach hefyd.

Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau iddo cyn i'r Cadeirydd ddiolch iddo am ddod.

COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL

1. **ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Cyng. Robert Morris Jones (Ward Llanengan) yn Gadeirydd am y flwyddyn 2015 – 2016.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Cyng. John Gwilym Jones (Ward Aber-soch) yn Gadeirydd am y flwyddyn 2015 – 2016.

3. **TROSGLWYDDO'R GADAIR**

Wrth drosglwyddo'r gadair, dywedodd y Cadeirydd na lwyddodd roi clo ar y tair nod a oedd ganddi, sef:

i) cwblhau toiledau Lôn Traeth, Aber-soch
ii) cael trefn ar Gronfa'r Cadeirydd (o ran arwyddo'r sieciau)
iii) cytundeb gwaith y Clerc – gobeithiodd gau pen y mwdwl ond, ni all Paul Egan, Un Llais Cymru, gysylltu â hi tan ddydd Gwener.

Dymunodd yn dda i'r Cyng. Robert Morris Jones yn ystod ei dymor fel Cadeirydd. Diolchodd yntau i'r Cyn-gadeirydd am ei gwaith. Mynegodd yr Is-gadeirydd ei ddiolch yntau am waith cydwybodol y Cyn-gadeirydd yn ystod ei blwyddyn – ategwyd hynny gan bawb.

4. **DYDDIADAU CYFARFODYDD 2015 – 2016**

Dosbarthwyd copi i bawb, ynghyd â rhoi un ar hysbysfwrdd y Ganolfan.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ebrill 8fed, 2015 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C15/0246/39/LL	Adeiladu pedwar tŷ preswyl â gwaith atodol yn cynnwys dull mynediad a thirlunio manwl (ail-leolir Uned 13 o Ganiatâd C13/0736/39/LL â'r cais yma, felly y bwriad yn cynnwys tri tŷ ychwanegol) – Harbour Hotel, Aber-soch **– Cefnogi**
C15/0290/39/LL	Estyniad deulawr ochr i'r tŷ ac estyniad porth car i'r modurdy – Hafod, 127 Cae Du, Aber-soch **– Cefnogi**
C15/0341/39/LL	Gwaith peirianyddol i greu llithfaen – Ynys Sant Tudwal (Gorllewin), Aber-soch **– Cefnogi**
C15/0354/39/LL	Cais i godi modurdy yn cynnwys lifft integrol – The Anchorage, Pen Bennar, Aber-soch **– Cefnogi**

C15/0373/39/LL	Estyniadau deulawr cefn ac ochr yn cynnwys balconi ac ymestyn adeilad allanol – Cartref, Bwlchtocyn **– Cefnogir ond, mynegwyd pryder am ei faint er credid mai ofer yw hynny o gofio beth ddigwyddodd ym Mhlas Gwyn drws nesaf**
C15/0382/39/LL	Adeiladu talcen at edrychiad blaen i greu ystafell ymolchi *en-suite* llawr cyntaf – 9 Sant Tudwal, Mynytho **– Cefnogi**
C15/0398/39/LL	Adnewyddu caniatâd cynllunio C10D/0063/39/LL ar gyfer estyniadau llawr cyntaf ac unllawr cefn – Crow's Nest, 156 Cae Du, Aber-soch – **Cefnogi**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus – Tyddyn Callod, Aber-soch**

- Ni fu raid drilio clo allanol i'r drysau – eglurodd cynrychiolydd y cwmni wrth yr adeiladwr sut mae eu hagor pe cyfyd argyfwng. Ond, o ganlyniad, rhaid i'r glanhawr dalu am wneud...! Awgrymwyd holi beth yw'r drefn o ran ad-dalu.
- Ni osodwyd y gisyr dŵr poeth – tua £300.00 + TAW yw ei bris.
- Banciwyd £226.80 o arian mynediad hyd yn hyn – ceisir gwneud bob pythefnos.
- Addaswyd ychydig ar eiriad yr arwydd i'w roi ar y toiledau. Derbyniwyd amcanbris o £288.20 + TAW am y plac a £87.50 am ei osod gan Cerrig – penderfynwyd gofyn am amcanbrisiau eraill gan fod hwn yn ddrud.
- Costia enwebiad Gwobr Toiled y Flwyddyn 2015 £125.00 ac mae'r dyddiad cau ar Fehefin 30ain; penderfynwyd ymgeisio, gan obeithio y cwblheir y manion bethau sydd angen eu gwneud mewn pryd.

b) **Biniau Baw Cŵn**

- Cysylltodd Kevin o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ddweud fod popeth yn iawn gosod y bin yn y maes parcio ac na ragwelai y gallai'r anifeiliaid ei ddisodli. Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod i'w osod eto; penderfynwd gofyn i'r contractwr brynu postyn.
- Gosodwyd y biniau stryd i gyd erbyn hyn ond, ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiad a osodir un ychwanegol ger offer sglefrfyrddio Cae Chwarae Aber-soch – cais a gyflwynwyd dros flwyddyn yn ôl.

c) **Swydd a Chytundeb Gwaith y Clerc**

Eglurodd y Cadeirydd y disgwylia ymateb Paul Egan, Un Llais Cymru, i gau pen y mwdwl ar Gytundeb y Clerc. Hysbysodd Griffith, Williams & Co. i ddweud fod ad-daliad a chodiad cyflog yn yr arfaeth.

ch) **Foel Gron a Thir Comin Mynytho**

i) ***Cynllun Glastir***

Cyfarfu perchennog Tŷ Uchaf, Charlotte Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru, WG a'r Clerc i drafod yr uchod – mae'n hapus cydweithio a chynorthwyo pe bai angen.

ii) ***Tir Pen y Mynydd***

Ymatebodd Cyfreithiwr y Cyngor i'r ymholiad faint fyddai cost llunio cytundeb cyfreithiol (£250.00 + TAW) ar gyfer y tenant newydd;

penderfynwyd gofyn i Merfyn Pugh baratoi un fel yr awgrymodd y Cyfreithiwr.

iii) ***Ty'n Ronnen, Mynytho***
Cwblhawyd y gwaith – gweler Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod – £704.75.

d) **Un Llais Cymru (ULlC) – Rhaglen Grant Gwefannau Llywodraeth Cymru**

- Crëwyd y wefan erbyn hyn ac anfonwyd ychydig luniau.
- Derbyniwyd y nawdd a chadarnhawyd talu gweddill anfoneb (£1298.00) Delwedd heno – gweler Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

dd) **Cae Chwarae Aber-soch**

- Cwblhawyd torri'r drain a'r eithin yn y fynedfa – cadarnhawyd talu'r anfoneb (£704.00 – gweler Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod) heno.
- Bwriada'r contractwr osod y ffens a'r giât newydd cyn y Sulgwyn.
- Derbyniwyd cais oddi wrth Bwyllgor Regata Aber-soch yn gofyn caniatâd defnyddio'r Cae Chwarae i gynnal chwaraeon yn ystod yr wythnos – cydsyniwyd.

e) **Glanhau Afon Soch**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

f) **Cronfa Florence Guest Morgan**
Noda gohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth yr Adran Addysg y pasiodd y Gwasanaethau Cymdeithasol nifer o geisiadau am gyfraniad o'r Gronfa Ddifrifol Wael ond, ni dderbyniwyd yr un ar gyfer Cronfa Merched Beichiog a Lles Plant; £2300.00 yr un sydd yn y ddwy gronfa, sef eu llogau.

ff) **Meddygfa Aber-soch**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach. Awgrymwyd a ddylai'r gymuned geisio brynu'r safle...

g) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/'Harbour Mews Development'**
Ni dderbyniwyd ymateb i ohebiaeth parthed yr uchod na chais am sylwadau ar y bwriad o greu'r llwybr ar lan Afon Soch.

ng) **Gohebiaeth aii) Un Llais Cymru (ULlC)**
Ni wnaed dim ag ymatebion y cynghorau eraill ond, yn sicr, ar ôl i'r Clerc fynychu'r cyfarfod a drefnwyd ym Metws y Coed i drafod yr Ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, cysylltir i gwyno. Fe'i cynhaliwyd yn uniaith Saesneg, ar wahân i gyflwyniad y siaradwr, a oedd yn Gymro Cymraeg, er bod cyfieithydd yn bresennol.

h) **Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth berchnogion 20 Maes Awel parthed arwyddo Trosglwyddiad newydd. Atebodd Cyfreithiwr y Cyngor y dylid aros tan ddychwela perchnogion 23 Maes Awel o Ffrainc ym mis Gorffennaf i gwblhau'r ddau'r un pryd.

i) **Canllawiau ar Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – Cyfieithu**
Anfonwyd llythyr i Uned Gwynion Ganolog, Llywodraeth Cymru, i gwyno am ddiffyg cyfieithu'r uchod, ar gyngor Swyddog Ymchwilio a Gorfodi, Comisiynydd yr Iaith.

l) **Gohebiaeth a) Un Llais Cymru (ULlC) –** i) **Ymgynghoriadau ar Eithriadau i Bremiwm Treth y Cyngor ar gyfer Cartrefi Gwag Hirdymor ac Ailgartrefi yng Nghymru**
Dyddiad cau'r ddau yw Mehefin 13eg. Ni chyfarfu'r gweithgor y soniodd y Cyng. Wyn Williams amdano eto.

ll) **Gohebiaeth a) Un Llais Cymru (ULlC) –** iii) **Ymgynghori ar Bapur Gwyn y Llywodraeth "Diwygio Llywodraeth Leol – Grym i Bobl Leol"**
Cyflwynwyd sylwadau ar yr ymgynghoriad erbyn Ebrill 28ain. Treuliodd wyth awr yn paratoi'r ymateb – mae newidiadau mawr yn yr arfaeth.

m) **Gohebiaeth d) John D. Roberts – Archwilio Cyfrifon 2014 – 2015/Hacker Young**
Derbyniwyd y ffurflenni pwrpasol oddi wrth Hacker Young, ond ni lwyddwyd trefnu mynd â'r dogfennau i Mr. Roberts fel bwriadwyd – eir â hwy i Swyddfeydd y Cyngor cyn Mai 26ain.

m) **Cais Cynllunio – C15/0246/39/LL Adeiladu pedwar tŷ preswyl â gwaith atodol yn cynnwys dull mynediad a thirlunio manwl (ail-leolir Uned 13 o Ganiatâd C13/0736/39/LL â'r cais yma ac felly y bwriad yn cynnwys tri tŷ ychwanegol) – Harbour Hotel, Aber-soch**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth Gwennan Jones, Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu, yn gofyn am sylwadau ar ddewis o bedwar tŷ fforddiadwy neu chwe fflat/apartment ar y safle – cynnig newydd gan y datblygwr – ond, penderfynwyd y dylid cadw at y pedwar tŷ oherwydd bod mwy o angen lleol amdanynt.

5. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Parcio ym Mhorth Neigwl**
i) ***Llinellau Gwyn Igam Ogam***
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Iwan ap Trefor, Peiriannydd Traffig, i'r ymholiad a ellid ychwanegu mwy o linellau gwyn igam ogam.
ii) ***Cyfyngiad Parcio***
Gweler cofnod sgwrs gan Colin Jones, Rheolwr Parcio a Diogelwch Ffyrdd, uchod.

b) **Rhaglen Waith mis Mai**
B4415 Rhydgaled – Pont Inkerman – gwaith clytio.

c) **Ffens ger Isfryn, Mynytho**
Derbyniwyd ymateb oddi wrth Gyfreithiwr y Cyngor. Awgryma cynllun Y Gofrestrfa Tir bod y llwybr yn rhan o erddi'r tai a byddai rhaid cael copïau o'u cynlluniau i weld os ydynt yn dangos y llwybr (£6.00 am bob eiddo – derbyniodd y Clerc ganiatâd y Cadeirydd i'w harchebu). Ychwanegodd efallai

nad yw'r perchnogion yn ymwybodol bod y llwybr yn perthyn iddynt ac y byddant yn fodlon cydweithredu â'r Cyngor i drosglwyddo'r llwybr iddo yn ffurfiol yn hytrach na derbyn unrhyw gyfrifoldeb amdano. Noda, hefyd, gan fod y llwybr wrth ochr y ffordd fawr, y byddai'n fwy priodol i Gyngor Gwynedd gymryd cyfrifoldeb am y cyfryw yn hytrach na'r Cyngor Cymuned.

ch) **Parcio ar Lôn Pen Cei, Aber-soch**
Yn dilyn cwyno am yr uchod, derbyniwyd ymateb oddi wrth Iwan ap Trefor, Uwch Beiriannydd Traffig, a noda nad oes digon o amser (dwy flynedd) wedi mynd heibio i ailystyried y cais o newid y gwaharddiadau tymhorol ond, cedwir golwg ar y sefyllfa eto yn yr Hydref...!

6. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Arwydd Mynyddoedd Eryri ar y Llwybr Arfordir ger Cim***
Gan na dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Stuart Lawrence, Rheolwr Grŵp Ystadau, ceisiwyd cysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog yng Nghyngor Shropshire parthed yr arwydd; ni dderbyniwyd ateb cyn heno.

b) ***Llwybrau'r Gymuned – Llwybr 69 Bryn Ffynnon, Stad Sant Tudwal, Mynytho***
- Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Huw Tudor.
- Derbyniwyd copi o ohebiaeth rhwng Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, a pherchennog yr eiddo uchod – newidiwyd y llawr caled i fod yn un addas fel llwybr cyhoeddus, tynnwyd y pyst ffens, ynghyd â dymchwel y wal a adeiladodd ar draws y llwybr. O ganlyniad, tynna DWO ei wrthwynebiad i gais cynllunio'r perchennog ac, yn yr un modd, gofynna i'r Cyngor hwn wneud yr un peth fel y gall symud ymlaen i ailagor y llwybr a newid ei gategori; penderfynwyd cytuno â'i gais.

c) ***Taith Gerdded Ddigidol***
Gan na dderbyniwyd ymateb oddi wrth ddylunydd taith Nefyn, cysylltwyd â Bleddyn Prys Jones, Rheolwr Gwasanaeth AHNE, i ofyn am ei gymorth, ond ofer fu'r cais hyd yma.

ch) ***Llwybr 57 Mynytho a'r Shanty, Penbennar***
Yn dilyn derbyn ymholiadau am yr uchod, cysylltwyd â Dewi Wyn Owen ac atebodd:

i) ***Llwybr 57*** – symudodd y cerrig a ddisgynnodd am y tro a noda mai cyfrifoldeb y perchennog tir yw cloddiau fel waliau a ffensys
ii) ***Shanty, Penbennar*** – mae dwy ffordd o gofrestru llwybr ac awgryma'r ail, sef gwneud cais dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad o ganlyniad i dros ugain mlynedd neu fwy o ddefnydd heb wrthwynebiad neu gytundeb y perchennog. Adroddodd WBW mai ef yw'r perchennog.

d) **Fforwm Mynediad Dwyfor**
Deallwyd fod Dewi Roberts yn fodlon dod i siarad â'r Cyngor pe bai angen trafod unrhyw fater mynediad.

7. **ADOLYGU A MABWYSIADU RHEOLAU SEFYDLOG/ARIANNOL A PHOLISÏAU**

Gohiriwyd trafod y rhain oherwydd diffyg amser.

8. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Côd Ymarfer ar Faterion y Gweithlu a Ffurflen Fonitro Flynyddol***
Copïau, er gwybodaeth, o'r uchod; mae angen dychwelyd y ffurflen erbyn Ebrill 30ain yn flynyddol.

ii) ***Llythyr Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth***
Ateb yr uchod i lythyr ar ran Pwyllgor Arfon Dwyfor parthed newidiadau i amserlen trenau ar hyd Llinell Cambria.

iii) ***Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 2) 2015 yn Dod i Rym***
Daeth yr uchod i rym ar Fai 1af. Golyga bod rhaid i gynghorau cymuned a thref gyhoeddi gwybodaeth benodol yn electronig, yn cynnwys Clerc ac Aelodau, cofnodion cyfarfodydd ac unrhyw ddatganiad archwiliedig o'u cyfrifon, cofrestr buddiannau aelodau. Diwygir Pwyllgorau Safonau ar y Cyd a chyfeirio Achosion o Gamymddwyn/Ceisiadau Goddefeb. Penderfynwyd ychwanegu'r rhain at y Rheolau Sefydlog/Ariannol.

iv) ***Cynllunio Cadarnhaol: Bil Cynllunio (Cymru)***
Gwybodaeth am ddau gam cyntaf proses ddeddfwriaethol yr uchod. Cynigiwyd gwelliant iddo a olyga bydd rhaid i awdurdodau cynllunio dalu sylw i ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, ble bo hynny'n berthnasol i'r cais.

v) ***Trosglwyddo Asedau Cymunedol***
Cyswllt ar wefan Llywodraeth Cymru i gyfarwyddwyd am yr uchod.

vi) ***Y Llais***
Copi, er gwybodaeth.

b) **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyfarfodydd Trafod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig**
Gwahoddiad i fynychu'r uchod yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Pwllheli, rhwng dau a saith o'r gloch fory (Mai 14eg).

c) **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig**
Copi o'i ohebiaeth â threfnwyr yr isod, ynghyd â gofyn am sylwadau'r Cyngor arnynt:

i) ***Digwyddiadau yn Aber-soch a'r Cylch – Rasys 10k a 3k, Treiathlon Sprint a Glass Butter Beach***
Dim gwrthwynebiad ond, gofynnwyd pam bod angen trwydded yfed/ cerddoriaeth i'r 'wire tow' yn yr Harbwr, gan fod digon o dafarndai gerllaw. Ychwanegodd Cyng. Wyn Williams y gofynnodd y Gymdeithas Masnachwyr a ellid tocio'r llwyni ar y bont – cytunodd y

perchnogion eraill eisoes. Penderfynwyd cydsynio â'r cais ond, nid tan fyddai'r tymor nythu drosodd.

ii) ***Digwyddiad Codi Arian at Drychineb Daeargryn Nepal ar Borth Fawr***
Dim gwrthwynebiad i gynnal digwyddiad 'chwythu swigod o gariad i Nepal bore Sul, Mai 24ain.

ch) **Swyddog Bioamrywiaeth – Torri Coeden Sycamorwydden ger 156 Cae Du**
Bu'n rhaid torri'r goeden uchod oherwydd ei chyflwr gwael.

d) **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Cyfarwyddyd Diwygiedig ar y Cod Ymddygiad**
Llythyr yn hysbysu'r uchod, yn dilyn derbyn nifer o gwynion lefel isel gan aelodau cynghorau cymuned a thref – argraffwyd copi caled o'r Canllawiau oddi ar y wefan, gan na chynhyrchir copïau caled.

dd) **Gwasanaeth Cynllunio – Bryn Cethin Bach, Aber-soch**
Derbyniwyd cwyn am yr arwydd o frics a osodwyd yn mynediad yr uchod ac ymatebodd yr Uwch Swyddog Gorfodaeth drwy ddweud yr edrychir i mewn i'r mater.

e) **AON Ltd. – Yswiriant**
Llythyr yn cynnig gwahanol brisiau ar gyfer yswiriant y Cyngor o Fehefin 1af – fe'i hysbyswyd mai ym mis Medi mae'n amser adnewyddu a'i fod mewn cytundeb tair blynedd.

f) **Adran Rheoleiddio – Cyd-bwyllgor AHNE Llŷn**
Copi o rifyn diweddaraf *Llygad Llŷn* a Thaflen Benderfyniad ei Gyfansoddiad a ddiwygiwyd trwy drefn ddirprwyedig yr Aelod Cabinet; caniatá'r diwygiad unrhyw aelod o'r Cyd-bwyllgor weithredu fel Cadeirydd.

ff) **Cyng. Wyn Williams – Teithio Cymru**
Copi o ohebiaeth rhyngddo a Sustrans Cymru parthed llwybr cerdded a beicio rhwng Pwllheli ac Aber-soch. Nodir y ceisia Cyngor Gwynedd ddatblygu'r llwybr ond, bod problemau â pherchnogaeth tir.

g) **Cefnogaeth Gorfforol – Her Gwynedd**
Gwahoddiad i drafod yr uchod mewn cyfarfod yng Nghlwb Rygbi Pwllheli, Bodegroes, rhwng chwech ac wyth o'r gloch ar Fehefin 11eg – angen cadarnhau presenoldeb cyn Mai 28ain; neb am fynd.

9. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C15/0244/39/LL	Estyniad cefn unllawr a chreu cyflesuter parcio oddi ar y stryd – Cae Pen Cottage, Cae Pin, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0241/39/LL	Estyniad llawr cyntaf uwchben modurdy presennol – Arfor, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

CEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL

C14/1109/39/LL Adeiladu chwech o dai cychod deulawr – Riverside Hotel & Restaurant, Aber-soch

10. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Mai y Clerc (Rh/S 001908), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £7.26 (Rh/S 001905 – Treth y Toiledau 2014-2015)
b) Cyngor Gwynedd – £674.80 (Rh/S 001906 – Treth y Toiledau 2015-2016)
c) R.W. Griffith – £704.75 (Rh/S 001907 – Barbio Cae Chwarae Aber-soch a Thy'n Ronnen, Mynytho)
ch) Cronfa'r Cadeirydd – £500.00 (Archeb Barhaol)
d) PWLB – £2253.13 (Ad-daliad Cyntaf Benthyciad y Toiledau)
dd) Delwedd Cyf. – £500.00 (Rh/S 001909 – Gweddill Cost Creu'r Wefan)
e) Clerc – £18.00 (Rh/S 001910 – Ad-daliad Teitlau Y Gofrestrfa Tir)
f) W. a G. Williams – £45.97 (Rh/S 001911 – Cloeon a Chodwr Ysbwriel)

Derbyniadau
a) Cyngor Gwynedd – £500.00 (Nawdd Llywodraeth Cymru at Greu Gwefan)
b) Arian Mynediad y Toiledau – £226.80
c) Cyllid a Thollau EM – £6142.61 (Ad-daliad TAW)

11. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Lun, Mehefin 1af, 2015 am saith o'r gloch i gadarnhau Cyfrifon 2014 – 2015
Nos Fercher, Mehefin 10fed, 2015 am saith o'r gloch